Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	19 Gorffennaf 2022
Swyddog Arweiniol:	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Awdur yr adroddiad:	Steve Price
Teitl:	Penodi Cadeirydd ac Aelodau y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r Cyngor yn penodi aelodau etholedig i bwyllgor statudol ac yn penodi cadeirydd y pwyllgor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ystyriodd y Cyngor ofynion aelodaeth y pwyllgor statudol hwn yn ystod ei Gyfarfod Blynyddol ym mis Mai. Ar y pryd nid oedd manylion yr aelodaeth wleidyddol yn gyflawn ac felly cytunwyd i ddychwelyd i'r Cyngor yn ddiweddarach i gadarnhau'r penodiadau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn penodi cadeirydd ac aelodaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn 2022 / 2023 y Cyngor.

4. Manylion yr adroddiad

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

4.1. Mae Adran 11 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn mynnu bod y Cyngor yn penodi Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i adolygu pa mor ddigonol yw darpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, gofod ac adnoddau eraill i gyflawni

swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

4.2. Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gael eu penodi gan y Cyngor Llawn. Ni fydd unrhyw aelodau cyfetholedig. O dan y Mesur ni fydd mwy nag un aelod o'r Cabinet ar y Pwyllgor (ac ni all fod yr Arweinydd), ond penderfynodd y Cyngor ym mis Mai 2012 y byddai'r aelodaeth yn 11 o gynghorwyr ac ni fyddai'n cynnwys aelodau o'r Cabinet.

4.3. Rhaid i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys a rhaid i'r Cyngor benodi cadeirydd sydd ddim yn aelod o unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cabinet. I Sir Ddinbych, mae hyn yn golygu y bydd y cadeirydd yn aelod o'r grwpiau Annibynnol, Ceidwadol neu'r Blaid Werdd.

4.4. O'r 11 sedd sydd ar y pwyllgor ar hyn o bryd (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn) mae 5 sedd wag. O'r rhain, mae gan y Grŵp Llafur hawl i benodi 4 aelod a Grŵp Plaid Cymru 1 aelod. Yr aelodau a enwebir gan eu grwpiau ar hyn o bryd yw'r cynghorwyr Karen Edwards (Annibynnol); Chris Evans (Annibynnol); Hugh Evans (Annibynnol); Justine Evans (Ceidwadwyr); Martyn Hogg (Y Blaid Werdd) a Delyth Jones (Plaid Cymru).

4.5. Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar gyfer 30 Medi 2022.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae cadw at ddyletswyddau statudol yn elfen hanfodol o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ar gost nac i wasanaethau eraill o gynnwys yr adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd y gofynion statudol ar gyfer penodi’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eu hystyried gan y Cyngor mewn adroddiad ar wahân ar 24 Mai 2022.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau wedi eu nodi yn deillio o gynnwys yr adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011